# DOGFEN GANLLAW I FORESTRY HOUSE



Helo, ……………

Croeso i Forestry House

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y canllaw hwn, gofynnwch i Simon, Rheolwr y Cartref, a'i dîm staff gyfeillgar sydd yn edrych ymlaen i'ch gefnogi.

## BLE I DDOD O HYD I WYBODAETH YN Y CANLLAW HWN.


Y CARTREF A'R TÎM STAFF ......... **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**

LLEOEDD YN YR ARDAL – ........ 2

GOLCHI DILLAD – ........ 2

Y TÎM STAFF – ........ 2

**EICH GWEITHWYR ALLWEDDOL:** ........ 3

DYMA CARTREF ........ 3

DYWEDWCH EICH BARN ........ 3

EICH YSTAFELL WELY- ........ 4

**DILLAD -** ........ 4

**ARIAN POCED -** ........ 4

**CYMHELLION -** ........ 5

ADDYSG ........ 5

CADW MEWN CYSYLLTIAD ........ 6

AROS YN IACH - ........ 7

DISGWYLIADAU ........ 7

IECHYD & DIOGELWCH – ........ 9

CEFNOGAETH & CHYMORTH YCHWANEGOL ........ 9

**GWNEUD CWYN – OS OES RHYWBETH RYDYCH YN PRYDERU AMDANO – MAE YNA GANLLAW AM WNEUD CWYNION YN Y LYFRYN HWN.** ........ 9

**EIRIOLAETH -** ........ 9

**SIARADWCH Â'R STAFF -** ........ 9

**UNIGOLYN CYFRIFOL HAYLEY -** ........ 9

YMWELWYR I'R CARTREF ........ 10

RHIFAU FFÔN PWYSIG ........ 10


Priority Childcare
Focused on the future

Priority Childcare
Focused on the future

# Y CARTREF A'R TÎM STAFF

**Mae Forestry House yn gartref efo pump ystafell wely, a fflat bach annibynnol ar wahân ar y tir, yn mynyddoedd pentref bach o'r enw Cwmgrach yn De Cymru. Mae'r cartref ar ddiwedd lôn breifat ac mae ganddo ardd fawr, sydd efo ddigon o le i chi chwarae chwaraeon neu fwynhau gemau gardd. Rydym ni'n dwli cael ddigonedd o farbeciws a phicniciau yn yr haf.**






**Gall y bobl ifanc sy'n aros yn Forestry House fod rhwng 8 a 19 oed.**

## LLEOEDD YN YR ARDAL –

**Gallwch fynd i Abertawe gyda chefnogaeth y staff a cherbyd y cartref.**



**Mae Mwmbwls a Phenrhyn Gŵyr tua 30-40 munud o daith mewn car, ynghyd â llawer o draethau ar hyd yr arfordir. Rydyn ni hefyd ar stepen ddrws yr Bannau Brycheiniog sy'n syfrdanol, ac mae'n cymryd tua 40 munud i yrru i'n brifddinas, Caerdydd. Mae gennym hefyd fynediad at lwybrau bws a thrên lleol.**



Gan ein bod ni ar ben mynydd, mae yna rai teithiau cerdded a golygfeydd hyfryd i'w gweld. Ond os yw'n well gennych chi dreulio peth amser dan dô, mae gennym ni ystafell gemau gyda llawer o weithgareddau dda.

## GOLCHI DILLAD –

Golchi dillad: mae cyfleusterau yn Forestry House i alluogi chi i wneud eich golchi dillad eich hun; gall y staff eich cefnogi i wneud hyn, a bydd gennych eich basged golchi dillad eich hun.

## Y TÎM STAFF –

Cyn i chi symud i mewn, bydd y staff yn cwrdd â chi a'ch teulu neu'ch gofalwyr fel y gallwch ddod i'n hadnabod ni.

Mae gennym ni Simon Parr, sef rheolwr y cartref, a dau Uwch Weithiwr Gefnogol, sef Bethan Phillips a David Richards, ynghyd â thîm o weithwyr cefnogol. Bydd gennych hefyd weithiwr allweddol (neu weithiau 2!) a fydd yn gweithio'n agos gyda chi ac yn adrodd yn ôl ar eich anghenion. Bydd y tîm cyfan yn eich helpu i ymgartrefu ac i deimlo'n ddiogel – cofiwch, does yna ddim unrhyw gwestiynau gwirion yma!







**Gallwn eich helpu yn y meysydd rydych eu hangen fel:**
**- Sgiliau byw o ddydd i ddydd**
**- Sgiliau bywyd**
**- Trin arian**
**- Hobïau a diddordebau**
**- Gweithgareddau hamdden**
**- Crefydd**
**- Nodau ac amcanion bywyd.**
**- Mae staff cefnogol ar gael yn Forestry House pob awr o'r ddydd.**

## EICH GWEITHWYR ALLWEDDOL YN:

- **Eich cefnogi yn eich cyfarfodydd.**
- **Monitro eich apwyntiadau iechyd – bydd eich gweithwyr allweddol yn eich cofrestru gyda meddyg a deintydd yn yr ardal ac unrhyw wasanaethau eraill sydd eu hangen arnoch.**
- **Adolygu eich cynlluniau gyda chi a sicrhau bod eich holl ddymuniadau a'ch nodau wedi'u cynnwys.**
- **Ysgrifennu adroddiadau am sut rydych yn dod ymlaen.**
- **Eich helpu i gadw mewn cysylltiad â'r bobl sy'n bwysig i chi.**
- **Eich helpu i gynllunio gweithgareddau a chwblhau cynllunydd wythnosol sy'n cynnwys sgiliau byw dyddiol, ond hefyd weithgareddau hwyliog rydych yn eu mwynhau!**
- **Cofiwch fod y tîm cyfan yma i'ch cefnogi gyda beth bynnag sydd ei angen arnoch.**

Priority Childcare
Focused on the future

# DYMA'R CARTREF

## CAEL DWEUD EICH BARN

**Rydyn ni eisiau i chi fod yn gyfforddus, yn hapus, ac yn rhan o redeg y cartref.**




**Felly, mae gennym ni -**

- **Cyfarfodydd cartref misol**
- **Arolygon misol – rhowch wybod i ni sut y gallwn wella**
- **Adolygiadau**
- **Cyfarfodydd gyda'r rheolwr**
- **Gallwch fynd i'r rhain yn bersonol neu gymryd rhan drwy Skype, e-bost, neu dros y ffôn.**

Priority Childcare
Focused on the future

## EICH YSTAFELL WELY -

**Eich ystafell wely yw'r lle y gallwch gadw eich eiddo bersonol. Efallai hoffech gael eich hoff liw ar y waliau neu ar eich dillad gwely, neu roi eich hoff luniau ar y waliau. Gallwn helpu gyda'r rhain pan fyddwch yn teimlo'n barod. Eich ystafell wely yw eich gofod, lle gallwch fynd i gael ychydig o le neu fynd i chwarae'n dawel os hoffech, ac fe fyddwn yn gwirio o bryd i'w gilydd eich bod yn iawn. Pan ewch i'r gwely, gall y staff dreulio ychydig o amser gyda chi, yn darllen neu'n gwylio'r teledu nes i chi deimlo'n flinedig, os hoffech i ni wneud hynny.**



**Cyn i'r staff adael eich ystafell, byddant yn diffodd eich teledu er mwyn i chi cysgu'n dda.**

Bydd angen i ni edrych yn eich ystafell bob dydd i wirio nad yw'n rhy anniben ac nad yw'ch dodrefn wedi torri. Os oes angen tacluso'r ystafell, gallwn eich helpu, neu gallwch wneud hyn eich hun. Ond cofiwch, gofynnwch os oes angen rhywbeth arnoch neu rhowch wybod i ni os mae rhywbeth wedi torri.







Priority Childcare
Focused on the future

## DILLAD -



Byddwn yn mynd i mewn i'ch ystafell wely i wirio a oes angen unrhyw ddillad newydd arnoch, fel cot newydd, sanau, siwmperi, esgidiau, neu unrhyw beth arall sydd ei angen arnoch.

## ARIAN POCED -

Byddwch yn cael arian poced ar ddydd Gwener, ar ôl ysgol. Er mwyn i chi gael eich arian poced, hoffwn weld bod eich ystafell wely yn daclus. Bydd

gennym gynllun i ddweud os allwch gael eich arian poced yn eich llaw; os na allwch, bydd y staff yn mynd gyda chi i wario'r arian ac yn rhoi unrhyw arian na wneir ei wario yn y swyddfa i'w gadw ar eich cyfer.

Bydd eich gweithiwr allweddol yn rhoi gwybod i chi faint o arian poced y byddwch yn ei gael bob wythnos.



## CYMHELLION -

Pan fyddwch yn symud i mewn, byddwn yn llunio rhaglen Cymhellion gyda chi fel y cewch wobrau ac medrwch ddathlu drwy wneud pethau rydych yn eu mwynhau pan fyddwch yn gwneud yn dda. Gallwch ennill arian.

Bydd eich gweithiwr allweddol yn rhoi gwybod i chi faint o arian y byddwch yn ei gael bob wythnos.








# ADDYSG

**Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn rhoi gwybod i ni ba ysgol yr ydych yn mynychu a fe fyddwn ni'n eich cludo i ac o'r ysgol.**
**OND os na allwch aros yn eich ysgol flaenorol, mae rhai pethau y byddwn yn eu gwneud tra byddwn yn aros i chi fynd i'r ysgol. Byddwn yn eich helpu i gadw'n brysur yn ystod y dydd, fel pobi cacennau neu fisgedi, mynd am dro, gwneud rhywfaint o addysg sylfaenol yn y tŷ, a all gynnwys chwarae gemau, lliwio, celf a chrefft.**
**Efallai y bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn trefnu i Diwtor Cartref ddod i'ch gweld yn Forestry House fel nad ydych yn colli allan.**
**Mae gennym athrawon sy'n gweithio i Priority Childcare yn Ty Trafle, ac mae nhw hefyd yn gweithio yn y cartrefi eraill. Efallai y bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn cytuno i chi fynychu yno. Byddwn yn eich cludo i ac o Dy Trafle neu'r cartrefi eraill.**
**Bydd y staff yn aros gyda chi os yw hynny yn eich cynllun, ac fe allwn ni drafod hyn gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol.**



# CADW MEWN CYSYLLTIAD

**Bydd cynllun ar waith ar gyfer eich cyswllt â'ch teulu neu bobl bwysig eraill yn eich bywyd.**
**Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn rhoi gwybod i ni pwy ydynt pan fyddwch yn dod i aros gyda ni. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol, ac fel arfer mae hyn yn digwydd ar ôl i chi symud i Forestry House. Pan fydd rhywun yn dod i'ch gweld, byddant yn gallu eich gweld yn yr ystafell fyw, neu os yw'r tywydd yn braf, mae gennym ardd gefn wych lle gallwch dreulio amser.**

**Rydyn ni eisiau i chi fod yn hapus a gwneud ffrindiau tra byddwch yn aros gyda ni. Hoffem wybod enwau eich ffrindiau, ble mae nhw'n byw a chwrdd nhw. Byddwn yn rhoi cynllun ar waith i'ch helpu i'w cwrdd a gallu mynd ar weithgareddau yn y gymuned os yw'n lle diogel i fynd i. Efallai y byddwn ni hefyd yn dod gyda chi i sicrhau eich bod chi'n iawn.**





**Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn ymweld â chi'n rheolaidd, ac fe fyddwn ni'n cadw mewn cysylltiad â nhw i roi gwybod sut rydych yn gwneud. Os hoffech siarad â'ch Gweithiwr Cymdeithasol, rhowch wybod i ni a gallwn eu ffonio ar eich rhan.**



# IECHYD → A → LLES

## AROS YN IACH -

**Pan fyddwch yn cyrraedd, byddwn yn eich cofrestru gyda meddyg teulu, deintydd ac optegydd lleol, os na allwch aros gyda'r rhai oedd gennych cyn symud yma. Byddwn yn eich cludo i apwyntiadau rheolaidd i sicrhau bod eich dannedd a'ch llygaid yn iawn.**

**Os byddwch byth yn teimlo'n dost, rhowch wybod i un o'r staff a byddant yn gofalu amdanoch. Fe newn ni ffonio'r Meddyg ac yn trefnu apwyntiad i chi i'w weld. Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol hefyd yn rhoi caniatâd i ni fynd i'r fferyllfa i gael meddyginiaeth dros y cownter, os oes angen, i'n helpu i ofalu amdanoch.**

**Byddwn yn eich cefnogi i fod yn heini ac yn iach, ac fe allwch gael fyrbrydau iach ar unrhyw amser yn Forestry House. Byddwn yn eich annog i wneud dewisiadau bwyd iach, ond rydym yn deall nad yw pawb yn hoffi popeth, felly byddwch yn rhan o ddewis y prydau bwyd a'r hyn sy'n cael ei brynu yn yr siop i'r tŷ.**



## GWERTHOEDD

**Mae gennym rai gwerthoedd yn Forestry House, sy'n sicrhau bod pawb yn gallu byw mewn cartref sy'n gyfforddus ac yn ddiogel.**

- Mae gan Forestry House bolisi dim ysmygu, ac mae hyn yn cynnwys 'vapes'. Os oes rhaid i chi ysmygu, yna'r ardal benodedig ar gyfer ysmygu yw y tu allan i'r giât flaen.
- Bydd y staff yn gwirio eich ystafell wely bob dydd i sicrhau ei bod yn lân ac yn daclus.
- Os oes gan y staff unrhyw bryderon am eich diogelwch neu eraill, gallant fynd i mewn i'ch ystafell heb ymgynghori â chi.
- Mae gennym bolisi dim goddefgarwch ar gyffuriau ac alcohol.
- Bydd unrhyw amser sgrîn wedi'i gytuno ymlaen llaw.
- Rhyngrwyd a ffonau symudol – mae ganddynt freintiau o dan 18 oed; byddwn yn trafod hyn gyda chi a'ch Gweithiwr Cymdeithasol.
- Rydyn ni'n gofyn i chi fod yn gwrtais efo bawb, gan gynnwys ymwelwyr, dim ots sut rydych chi'n teimlo, er ein bod yn gwybod y gall hyn fod yn anodd ar adegau.
- Byddwn yn gofyn i chi i helpu ni gyda rhai tasgau o amgylch y tŷ i gadw eich cartref yn lân ac yn daclus. Gall rhai tasgau gynnwys helpu i roi'ch llestri budr yn y gegin ar ôl eu defnyddio, neu roi papur melysion a chreision yn y bin, gan helpu i gadw'r tŷ a'r ardd yn daclus.
- Rydyn ni'n gofyn i chi beidio â thorri unrhyw beth, ond os gwelwch chi unrhyw beth wedi'i ddifrodi o amgylch y cartref, rhowch wybod i'r staff.
- Rydyn ni'n gofyn i chi fynd i'r gwely ar amser penodol, a fydd yn cael ei gytuno pan fyddwch yn symud i mewn. Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol hefyd yn cael dweud ei farn am ba amser fydd hyn.
- Byddwn yn eich galw yn y boreau i sicrhau eich bod yn barod ar gyfer unrhyw apwyntiadau sydd gennych ac i wirio eich bod yn iawn.

EXPECTATIONS

Priority Childcare
Focused on the future





The

FORESTRY HOUSE

EST. 2016 Family

## IECHYD A DIOGELWCH –

**Bydd y staff yn gwneud gwiriadau iechyd a diogelwch bob wythnos; gall hyn gynnwys profi'r larymau tân a chynnal ymarferion gwacáu. Os bydd tân, fydd rhaid i bawb fynd a sefyll gyda'i gilydd yn ardal y maes parcio. Bydd y staff yn dangos i chi beth i'w wneud ar eich diwrnod cyntaf yn Forestry House, ac fe allwch chi gymryd rhan yn y gwiriadau wythnosol os hoffech! Os byddwch byth yn gweld rhywbeth sy'n eich poeni, dywedwch wrth aelod o'r staff.**





Priority Childcare
Focused on the future

# CHYMORTH YCHWANEGOL

### GWNEUD CWYN – OS OES RHYWBETH RYDYCH YN PRYDERU AMDANO, DYMA GANLLAW AM GWYNION.

**EIRIOLAETH -** **Os oes angen unrhyw gymorth neu gefnogaeth arnoch gyda materion mawr nad ydym ni'n gallu eich helpu gyda, gall y cartref gysylltu ag eiriolaeth i gwrdd â chi a siarad ar eich rhan ar gyfer materion difrifol neu gyfreithiol.**

**SIARADWCH Â'R STAFF -** **Os nad ydych yn hapus am y ffordd rydych yn cael eich gofalu, efallai yr hoffech siarad am sut rydych yn teimlo, bydd y**

staff yma i wrando ac yn ysgrifennu i lawr beth sy'n eich gwneud yn anhapus, neu gallwch chi ei ysgrifennu eich hun.

## UNIGOLYN CYFRIFOL



Yr unigolyn cyfrifol ar gyfer Forestry House yw Hayley Phillips, ac mae hi'n ymweld â'r cartref yn rheolaidd, gan sicrhau bod y cartref yn cael ei rhedeg yn dda, ac bod pawb yn ddiogel ac yn hapus. Mae poster ar y wal gyda llun Hayley a phawb arall y gallech fod angen cysylltu â nhw yn Priority Childcare os hoffech godi pryder.

*"Helo a chroeso i Forestry House, Hayley Phillips yw fy new i. Rwy'n edrych ymlaen at sgwrsio â chi pan af i ymweld. Rhowch wybod i mi os ydych yn anhapus ag unrhyw beth ac fe wnaf fy ngorau i'ch helpu. Byddaf yn gofyn i chi ddangos eich ystafell wely i mi, gan fy mod yn hoffi gwirio bod gennych bopeth sydd ei angen arnoch. Mae gan y staff fy manylion os hoffech gysylltu â mi."*

**Gallwch hefyd ffonio eich Gweithiwr Cymdeithasol neu Weithiwr Gwasanaeth Eiriolaeth. Gallwn eich helpu i'w ffonio.**

- **Gweithiwr Cymdeithasol: -…………….……………….Rhif ffôn**
- **Gwasanaeth Eiriolaeth: - …………………… Rhif ffôn**

## YMWELWYR I'R CARTREF

## RHAI RHIFAU FFÔN PWYSIG

| | |
|---|---|
| Llinell Gymorth i Blant: | 0800 1111 |
| NSPCC | 0808 800 5000 |
| Kidscape (cyngor a gwybodaeth am fwlio) | 02077 303300 |
| Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol | 0800 616101 |
| Cefnogaeth i Ddioddefwyr | 08453 030900 |
| Llinell Gymorth Genedlaethol Cyffuriau | 0800 776600 |
| Switchboard Lesbiaid a Hoywon | 02078 377324 |
| Iechyd Rhywiol Cymru | 08456 048484 |
| Y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol | 02920 729200 |

Priority Childcare
Focused on the future

| | |
|---|---|
| Comisiynydd Plant Cymru<br>Tŷ Oystermouth<br>Llys Siarter<br>Ffordd Phoenix<br>Llansamlet,<br>Abertawe | AGC<br>Swyddfa Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhydycar<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ |

| | |
|---|---|
| SA7 9FS<br>Ffôn: 01792 765600 E-bost: post@childcomwales.org.uk | Ffôn: 0300 7900 126<br>E-bost: ciw@gov.wales |

**Os oes unrhyw rifau eraill sydd eu hangen arnoch, gofynnwch i un o'r staff a gallwn eu hysgrifennu yma.**

**Efallai y byddwch yn well gennych sganio ein côd QR isod i gael yr holl wybodaeth sydd yn y canllaw croeso, gan ein bod yn deall y gall darllen yr holl wybodaeth hon fod ychydig yn ddiflas.**

## NODIADAU HOFFECH EU GWNEUD

Priority Childcare
Focused on the future